

COFNODION

CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG ECOLEGOL

Dyddiad	28 Gorffennaf 2021
Amser	14.00-16.00
Lleoliad	Microsoft Teams
Yn bresennol	Y Cyng. Brian Jones (BJ), y Cyng. Graham Timms (GT), y Cyng. Tony Thomas (TT), y Cyng. Bobby Feeley (BF), y Cyng. Gwyneth Kensler (GK), y Cyng. Arwel Roberts (AR), y Cyng. Barry Mellor (BM)
Ymddiheuriadau	Andrew Cutts, Tony Ward, Nicola Kneale, Joel Walley a'r Cyng. Joe Welch
Hefyd yn bresennol	Swyddogion yn cefnogi: Helen Vaughan-Evans (HVE), Howard Sutcliffe (HS), Jane Hodgson (JH), Tom Booty (TB), Alan Smith (AS), Liz Wilcox-Jones (LWJ) Cynghorwyr yn arsylwi: y Cyng. Ellie Chard (EC), y Cyng. Meirick Davies (MD)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd, GT, bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Croesawodd Jane Hodgson i'r tîm Newid Hinsawdd, sydd wedi dechrau yn ei swydd fel Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd.

2. Diweddaru'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp

Arweiniodd Helen y grŵp drwy'r newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y grŵp.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwrpas diffiniedig y grŵp.

Cymeradwyodd y grŵp y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru.

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG EOCLEGOL

CAM GWEITHREDU:

- HVE – i anfon y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwyo at aelodau'r Grŵp a'r gwasanaethau democrataidd.

BJ – pwysig amlinellu'r cyfeiriad i'r Aelodau a beth mae angen i'r sefydliad ei wneud i gyflawni ei Strategaeth Hinsawdd ac Ecologol 2022-2027 – fel bod sail gadarn wrth drosglwyddo i Gyngor newydd ar ôl etholiadau Mai 2022 ac i sicrhau dealltwriaeth ymysg y Cynghorwyr newydd a fydd yn ffurfio'r Cyngor newydd am y 5 mlynedd nesaf.

GT – mae'r agenda hon o ddiddordeb penodol i Gynghorwyr ac mae'r grŵp hwn yn darparu fforwm trawsbleidiol da ar yr agenda.

AS – cytuno â BJ a GT. Mae'n bechod colli cefnogaeth a momentwm.

HVE – lle da i gynnwys argymhelliad i barhau â'r grŵp hwn yn y Cyngor newydd (2022-2027) fyddai'r papur i'r Cyngor Llawn oedd ei angen ym mis Chwefror 2022.

CAM GWEITHREDU:

- HVE – i gynnwys argymhelliad i barhau â'r Gweithgor Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecologol yn y Cyngor newydd (2022-2027) yn y papur i'r Cyngor Llawn (ar y cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 22 Chwefror 2022)

3. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Adolygwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar 9 Mawrth 2021 a rhoddodd HVE ddiweddariad. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

CAM GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
BJ i anfon llythyr at Lesley Griffiths AS trwy e-bost.	WEDI'I DDISODLI

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG EOCLEGOL

	<ul style="list-style-type: none"> • Llythyr newydd wedi'i ddrafftio i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog newydd dros Newid Hinsawdd (Julie James AS a Lee Waters AS) • Ar y rhaglen i'r grŵp ei addasu a chymeradwyo'i anfon
<p>GT fel Cadeirydd y gweithgor, i awgrymu wrth Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu bod cyfle i adroddiad ysgrifenedig gan dîm Arlwy Ysgolion fynd i Bwyllgor Craffu ym mis Medi/Hydref 2021 ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud ar faterion carbon isel a lleihau'r defnydd o blastig un defnydd.</p>	<p>AR Y GWEILL</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graham i godi'r awgrym hwn yng nghyfarfod nesaf Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (9 Medi). • Yn debygol o gael ei drafod yn yr hydref/gaeaf (Pwyllgor Craffu Cymunedau – 29 Hydref)
<p>LWJ i ddyfeisio cynllun newid ymddygiad a chyfathrebu ar gyfer 2021/22.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun bellach yn cael ei gyflawni • Syniadau ar gyfer digwyddiad cyhoeddus yn yr hydref ar y rhaglen
<p>HS/LWJ i ymateb i lythyr NMWTRA/LIC ynghylch torri coed ar yr A5/A494.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd ymateb ar 08.12.20 • Cafwyd ateb ar 21.12.20 • Bydd NMWTRA yn hapus i drafod gyda Chyngor Sir Ddinbych a thrafod unrhyw brosiectau partneriaeth neu drefniadau cydweithio eraill ymhellach sy'n hwyluso plannu mwy o goed yn y sir

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG

EOCLEGOL

	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y cyfarfod dilynol ei ganslo fis Mawrth/Ebrill 2021 • Cyfarfod newydd eto i gael ei drefnu
<p>HVE i ychwanegu'r prosiect clefyd coed ynn fel eitem bosib ar raglen cyfarfod i'w gynnal ryw dro yn 2021/22, yn dibynnu ar ddyfodol y grŵp, fel yr awgrymodd TW.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi'i awgrymu ar y Cynllun i'r Dyfodol ar gyfer mis Tachwedd
<p>GT/BJ i drafod dyfodol y gweithgor hwn ar gyfer 2021/22 cyn cyfarfod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu ym mis Mawrth.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p>
<p>LWJ i ddarparu mwy o ystadegau ar bresenoldeb mewn hyfforddiant Llythrennedd Carbon pan oedd holl ddyddiadau'r cyrsiau wedi bod.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • 207 o ddysgwyr wedi cwblhau hyfforddiant 1 diwrnod ar Lythrennedd Carbon • 77 Cynllun Gweithredu ar Garbon wedi'u cyflwyno • 61 dysgwr wedi cael achrediad Llythrennedd Carbon • Cyngor Sir Ddinbych yn gallu ymgeisio i fod yn sefydliad Llythrennedd Carbon Efydd <ul style="list-style-type: none"> ○ Achrediad 3 blynedd ○ Defnydd o'r logo ac mewn deunydd hyrwyddo cenedlaethol • Modiwl e-ddysgu 'Cyflwyniad i Newid Hinsawdd' wedi'i lansio ddiwedd mis Mehefin, 107 o ddysgwyr wedi cwblhau'r cwrs yn y bythefnos gyntaf ar ôl lansio – y perfformiad gorau mewn modiwl e-ddysgu!

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG EOCLEGOL

Trafodwyd y Materion yn Codi canlynol

Adolygu llythyr drafft i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd

Gwnaed addasiadau i'r llythyr yn ystod y cyfarfod.

GT – pwysig sôn bod gan y Cyngor gynllun a'i fod wedi ymrwymo adnoddau i'w gyflawni.

MD – llythyr i gael ei anfon yn ddwyieithog.

BJ – awgrymodd y dylid cyfeirio at yr achrediad Llythrennedd Carbon Efydd yn y llythyr. Ni a fyddai'r Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad dan y Prosiect Llythrennedd Carbon.

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE i sôn am gyflawni'r achrediad a gwneud y newidiadau eraill a nodwyd i'r llythyr i'r Gweinidogion.
- BJ i drafod gyda'r Arweinydd i anfon y llythyr at y Gweinidogion.

Adroddiad ar lafar am bapur Craffu gan Bennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar reoli glawelltir ar gyfer bioamrywiaeth

Rhoddodd HVE gyflwyniad ar lafar i'r mater hwn gan fod TW yn absennol.

Y Grŵp yn cefnogi'r egwyddorion oedd ynghlwm ag o.

Adborth penodol wedi'i dderbyn gan BM, AR, GT, GK, TT, BF, MD i ystyriaeth gan TW i gynnwys yn y papur y dull i ymestyn y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt yn 2022.

Adborth wedi'i nodi gan swyddogion a HVE i adrodd yn ôl i TW.

Eglurodd HVE fod y cynghorwyr wedi derbyn rhestr o'r holl safleoedd i'w cynnwys yn rownd 2021 y Prosiect ym mis Mai 2021. Awgrymodd fod hwn yn cael ei anfon gan Dîm y Prosiect yn gynharach yn y flwyddyn ar gyfer rownd 2022. Er gwybodaeth hefyd, roedd map o bob safle bellach ar gael ar y wefan yn ogystal â thudalen we gyda gwybodaeth am y prosiect –

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-yr-amgylchedd/newid-hinsawdd-ac-ecolegol/prosiect-dolydd-blodau-gwyllt.aspx>.

Roedd y Grŵp yn gefnogol i'r Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt ac roedd yn edrych ymlaen at glywed y drafodaeth yn y Pwyllgorau Craffu.

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE i gynnwys trafodaeth ar raglen cyfarfod nesaf y gweithgor ynglŷn â defnydd o blaladdwyr ar waith cynnal a chadw tir a pholisi'r Cyngor ar hyn o bryd.
- HVE i adrodd yn ôl wrth TW ynglŷn ag adborth y grŵp a bod y grŵp yn hapus i TW sôn am gefnogaeth y gweithgor yn y rhan ar ymgynghori yn y templed adroddiadau.
- TW i lunio drafft o'r papur Craffu yn unol â hynny.

4. Adrodd yn ôl ar berfformiad y dangosydd perfformiad Carbon-sero Net ac Ecolegol Bositif ar gyfer 2020/21

Arweiniodd HVE bawb trwy'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a'r Dangosyddion Perfformiad allweddol ar gyfer Cyngor Carbon-Sero Net, Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi a Chyngor Ecolegol Bositif.

Pwysleisiodd HVE mai blwyddyn 0 o gyflawni'r strategaeth oedd 2020/21 ac mai blwyddyn gyntaf y strategaeth yw 2021/22.

Pwysleisiodd HVE bod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn o gyfnodau clo Covid ac y gallai allyriadau carbon godi yn 2021/22 o gymharu â 2020/21, ond eu bod yn sicr yn cael eu targedu i leihau o gymharu â sylfaen 2019/20.

Roedd y data wedi'i gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyffredinol y Cyngor, sydd ar gael i'w ddarllen yma ac a gafodd ei gyflwyno a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf –

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=6309&LLL=0>

Crynodeb i'w weld isod:

Carbon-sero Net

- Mae sylfaen 2019/20 wedi'i ddiweddarau yn sgil newid i'r cwmpas ar gyfer gwastraff yn ôl cyfarwyddyd y Canllawiau Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr gan Lywodraeth Cymru (sylfaen yn is)
- Cyfanswm y Carbon sy'n cael ei allyrru – wedi gostwng 23% yn 2020/21 o gymharu â'r sylfaen yn 2019/20

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG

EOCLEGOL

- Cyfanswm y Carbon sy'n cael ei ddal a'i storio – wedi gostwng 2% yn 2020/21 o gymharu â'r sylfaen yn 2019/20
- Y sefyllfa Carbon-sero Net – 10,277 o dunelli yn 2020/21 (27% yn is na sylfaen 2019/20)

Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi

- Allyriadau'r gadwyn gyflenwi – wedi gostwng 2.2% yn 2020/21 o gymharu â sylfaen 2019/20

Ecolegol Gadarnhaol

- Canran y newid yn nosbarthiad y cyfoeth o rywogaethau ar dir – 0.58% o gynnydd yn faint o dir sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth o rywogaethau

GT – gofynnodd a allai amcangyfrif canol-blwyddyn ar berfformiad carbon gael ei adrodd yng nghyfarfodydd y gweithgor yn y Flwyddyn Newydd a'i gynnwys ym mhapur y Cyngor Llawn ym mis Chwefror. Mynegodd HVE bryder gan fod llawer o'r data'n cael ei gasglu'n flynyddol yn unig ond byddai'n edrych ar beth allai gael ei wneud.

AR – holodd ynglŷn â diffiniad coetir. Mae diffiniad Rhestr Tir y DU wedi'i defnyddio ym Methodoleg Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth Cymru, sef y fethodoleg mae'r Cyngor yn ei dilyn. Mae o leiaf 20% o orchudd gan goed yn creu cyfleoedd i greu amrywiaeth o gynefinoedd sy'n beth da i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Awgrymodd AR ddarn o waith i asesu faint mae coed yn ei orchuddio ar dir ysgolion a'r potensial i'w gynyddu i'w ddiffinio fel coetir.

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE i edrych a oes modd darparu ystadegau rhagolygon ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Rhaglen ym mis Chwefror 2022.
- LWJ i asesu faint mae coed yn ei orchuddio ar dir ysgolion yn Sir Ddinbych a chyfleoedd i gynyddu hynny i o leiaf 20%.

5. Adolygiad o'r argymhellion yn yr Adroddiad Archwilio Uchelgeisiau Amgylcheddol gan Archwilio Cymru

Heb gael yr adroddiad llawn o ganfyddiadau'r archwiliad gan Archwilio Cymru eto, ond maent wedi anfon canlyniadau'r arolwg staff atom, a gafodd ei gynnal ganddynt yn rhan o'r archwiliad (505 o atebion gan staff).

Soniodd AS wrth y grŵp am ganfyddiadau'r arolwg staff a dywedodd bod yr adroddiad yn dweud:

- bod gennym amcanion a strategaeth glir (84% yn deall y strategaeth)
- bod y Cyngor a'r staff yn falch iawn o fod yn rhan o hyn (50% yn deall sut y byddai'n effeithio ar eu gwaith)
- bod staff yn falch bod rhywbeth yn digwydd

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol:

- Cynyddu dealltwriaeth o'r ffordd rydym ni'n monitro perfformiad – dangosyddion a mesuryddion
- Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â sut y gall staff weithredu'r amcanion sydd yn y strategaeth yn eu rolau
- Rhannu mwy o fanylion ynglŷn â beth mae'r rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn ei olygu

EC – cadarnhaol bod amrywiaeth o staff wedi llenwi'r arolwg – nododd ei bod yn gwybod am Gynorthwydd Personol mewn ysgol a oedd wedi'i lenwi.

GK – holodd ynglŷn â'r ganran ymateb eithaf isel. Trafodwyd effaith yr ymateb i Covid a gallu'r staff o ran amser i lenwi'r arolwg.

6. Cyflawni prosiectau yn ystod 2021/22 a Chynllun Buddsoddi Arfaethedig ar gyfer 2022/23

Soniodd HVE wrth y grŵp am gyflawni prosiectau yn 2021/22 ac atgoffodd y grŵp am y gyllideb oedd wedi'i dyrannu ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor.

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG

EOCLEGOL

- £189,000 o refeniw i dalu am fenthycha darbodus (wedi'i amcangyfrif i ganiatáu tua £2.8 miliwn)
- £200,000 o refeniw i dalu am staff

Mae'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

ADEILADAU	Y FFLYD GERBYDAU	TEITHIO FEL ARALL	GWASTRAFF
<ul style="list-style-type: none"> • Gwyrddu Ysgol Dinas Brân • Gwyrddu Theatr y Pafiliwn • Gwyrddu Neuadd y Sir 	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan Corfforaethol a Phrynu Cerbydau Trydan 	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus i Gerbydau Trydan • Rhaglen Ffyrdd Newydd o Weithio 	<ul style="list-style-type: none"> • Ailagor Siop Aildefnyddio Canolfan Wastraff y Rhyl

CADWYN GYFLENWI	DEFNYDD TIR – DAL A STORIO CARBON	DEFNYDD TIR – BIOAMRYWIAETH	NEWID YMDDYGIAD
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Gwaith Caffael Carbon Isel • Cynllun Peilot Caffael Di-garbon ar gyfer Adeiladu 	<ul style="list-style-type: none"> • Agor Meithrinfa Goed Sirol • Creu Coetir yn: Dyserth (Maes Esgob); y Rhyl (Maes Gwilym); 2-3 safle arall o bosib, i'w cadarnhau 	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Dolydd Blodau Gwylt 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu (gan gynnwys digwyddiadau cyhoeddus yn yr hydref/gaeaf)

Arweiniodd HVE y grŵp drwy'r cynllun buddsoddi arfaethedig ar gyfer 2022/23 a oedd yn cynnwys cyllideb ar gyfer benthycha darbodus i ymgymryd â phrosiectau cyfalaf eraill a chyflogi aelodau ychwanegol o staff o fewn meysydd gwasanaeth i gefnogi eu cyflawni a rheoli'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud. Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu cyflwyno i gael eu hystyried o fewn y broses flynyddol o bennu'r Gyllideb, sy'n cynnwys ymgynghori ag Aelodau a'r cyhoedd bob blwyddyn.

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG EOCLEGOL

GT – amlwg y bydd angen mwy o fuddsoddiad i leihau carbon o adeiladau ar y gyfradd rydym ni ei hangen.

MD – awgrymodd y gallai coed gael eu plannu ar yr ymyl lydan yn Rhuddlan ar ffordd Llanelwy i Ruddlan – gallai ymylon mawr a llydan eraill gael eu hystyried ar gyfer coed.

GK – gofynnodd ai tai cymdeithasol neu swyddfeydd oedd yn achosi'r rhan fwyaf o allyriadau dan bennawd Adeiladau. Cadarnhaodd HVE nad oedd tai cyngor wedi'u cynnwys yn ein ffigyrau. Roedd llawer o ymyrraeth yn dod gan Lywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio tai cymdeithasol. Safleoedd hamdden ac ysgolion uwchradd yw'r rhai sy'n allyrru'r mwyaf o garbon o blith adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor o fewn cwmpas Carbon-sero Net.

7. Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2021/22

Cyflwynodd LWJ y bwriadau ar hyn o bryd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus arfaethedig yn hydref/gaeaf 2021.

Egwyddorion allweddol y tu cefn i'r bwriadau:

- Am geisio eu cynnal o amgylch COP26 (31 Hydref – 12 Tachwedd 2021) – hydref/gaeaf 2021
- Ymwybodol o amser
- Eisiau gweithio mewn partneriaeth
- Efallai y byddwn yn dal wedi ein cyfyngu i ddigwyddiadau rhithiol

Roedd y syniadau yn cynnwys:

- Meddiannu'r cyfryngau cymdeithasol (gyda negeseuon a chynnal sesiynau holi ac ateb byw)
- Cyfres o weminarau Sir Ddinbych ar gyfer COP26 (ar themâu fel Llywodraethu, Gweithredu yn y Gymuned, Busnes, Perchnogion Tir)
- Gweithgareddau yn benodol ar gyfer pob ifanc trwy ysgolion a lleoliadau ieuenctid eraill (potensial i gyd-greu rhywbeth creadigol)

Agorodd LWJ y llawr i gael adborth gan y grŵp a'u barn am y cynlluniau cychwynol.

GT – ynglŷn ag ysgolion yn cymryd rhan. Mae pob ysgol yn gorfod cynnal amser meddwl/addoli (10-15 munud y dydd). Gallai'r sesiwn feddwl/addoli hon fod yn seiliedig ar newid hinsawdd a COP26 am gyfnod. Darparu adnoddau i ysgolion ynghlwm â'r amser meddwl – gallent fod yn wahanol ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. Gallai cludiant i'r ysgol fod yn thema i un diwrnod.

GT – ynglŷn â busnesau. Creu pecyn o adnoddau ac offer i fusnesau – darparu adnoddau i gael sgysiau gyda'u staff ynglŷn â'r agenda hon.

GK – rhaid cydnabod a chymeradwyo bod y mudiad hinsawdd wedi cael ei arwain gan blant ers y cychwyn.

AR – bydd adroddiad Donaldson yn siŵr o sicrhau bod newid hinsawdd yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm. A allwn ni greu cysylltiad â Sustrans ar waith ymgysylltu â'r ysgolion i annog cerdded neu feicio i'r ysgol bob dydd? Cefnogi Llywodraethwyr i herio ysgolion ynglŷn â'u gweithgarwch ar newid hinsawdd.

BJ – mae Ysgol Llywelyn yn y Rhyl wedi cyrraedd safon efydd Sustrans ar gerdded a beicio – astudiaeth achos dda i ysgolion eraill – a dysgwyd llawer o'r cynllun peilot a gynhaliwyd ddechrau'r flwyddyn lle caewyd rhan o'r ffordd ger yr ysgol i wella ansawdd aer a'i gwneud yn fwy diogel i blant ddod i'r ysgol.

BJ – fel awdurdod, gallem greu fideo am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i gael ei chyhoeddi a'i hyrwyddo yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Ei hanfon at lawer o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys ysgolion.

CAMAU GWEITHREDU:

- LWJ i gynnwys yr adborth a'r syniadau yn y cynlluniau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn hydref/gaeaf 2021.

8. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol ac unrhyw fater arall

Arweiniodd HVE y grŵp trwy gynllun gwaith i'r dyfodol 2021.

Cytunodd y grŵp bod angen symud dyddiad cyfarfod mis Mawrth i fis Chwefror gan fod yr adroddiad yn mynd i'r Cyngor Llawn ar 22 Chwefror.

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG EOCLEGOL

Dyddiadau'r cyfarfodydd	Eitemau posib' ar gyfer y Rhaglen
16 Tachwedd 2021, 14.00-16.00	<ul style="list-style-type: none">- Cyflwyniad ac Adroddiad Cynnydd ar Brosiect Clefyd Coed Ynn- Cais Cyllideb y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yng nghyllideb y Cyngor at 2022/23- Rhestr hir o flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r hyn sy'n cyd-fynd â'r agenda Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol- Trafodaeth ynglŷn â defnyddio plaladdwyr mewn gwaith cynnal tir a pholisi'r Cyngor ar hyn o bryd.
1 Mawrth 2022, 14.00-16.00 Wedi newid i 1 Chwefror 2022, 14.00-16.00	<ul style="list-style-type: none">- Cymeradwyo adroddiad drafft i'r Cyngor Sir (cynnydd hyd yma, cyn diwedd cyfnod y Cyngor presennol)

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE i newid cyfarfod mis Mawrth i fis Chwefror.

Ni drafodwyd unrhyw fater arall.